# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Mai 9fed 2018.

**Presennol.**

Cyng G.Hughes,Cyng D.Morris Cyng C.Edwards Cyng S.Roberts Cyng P.Jenkins.

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Edwards. Cyng C.Dixon Cyng G.Jones

-------

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus cyn cyfarfod y cyngor cymuned i drafod prynu defibriliwr ar gyfer y gymuned.

Sefydlodd y cyfarfod cyhoeddus fod yna nifer o bobl oedd yn barod i ddod yn wirfoddolwyr a fyddai'n gweithredu'r diffibriliwr mewn argyfwng.

Clerc i cysylltu gyda Mr Tomos Hughes gwasanaeth ambiwlans Gogledd Cymru i drefnu sesiynau hyfforddi a phrynu'r offer.

------

**Cadarnhau cofnodion cyfarfod 11eg Ebrill 2018:**

Cyng Edwards yn cynnig fod y cofnodion yn gywir,Cyng Morris yn eilio.

**Materiion yn codi:**

Ffordd lefel- Ar ôl derbyn deddf rheoli trafnidiaethi ymwneud a ffordd lefel (yn awgrymu fod y fford am fod ar gau hyd at 18 mis)a trafod ymateb Cyngor Gwynedd i gais y cyngor i wella'r mannau pasio ar Ffordd Maes yr Eglwys Wen gofynnodd y cyngorhorwyr i'r clerc drefnu cyfarfod safle gyda chynrychiolwyr Cyngor Gwynedd gan eu bod yn anhapus ag ymateb y cynor i'r sefyllfa.

Cais cynllunio NP5/60/155- Mae'r parc wedi ymateb i ymholiadau'r cyngor i'r cais, ar ol trafodaeth derbyniodd y cynghorwyr eu bod wedi mynd i'r afael â'u sylwadau fel y'u cofnodwyd yn y munudau mis Ebrill 2018.

Maes Parcio Ty'n y Groes- Mae'r cyngor yn dal i ddisgwyl ymateb gan y CNC mewn perthynas â'r mater hwn.

**Cynghorydd Sir**

Cadarnhaodd ei fod wedi ymchwilio i mewn i'r Mast sydd wedi ei leoli ger y Neuadd Bentref ac mae'n bur debyg na fydd unrhyw arian ar gael gan y Llywodraeth.

**Lwfansau/Taliadau Cynghorwyr**

Mae rhai o'r cynghorwyr wedi arwyddo llythyr yn hysbysu na fyddent yn gwenud cais am unrhyw dal ariannol am y flwyddyn 2017-2018 mewn perthynas a'u dyletwsyddau. Bydd gweddill y cynghorwyr yn penderfynu os fyddent am wneud cais am daliad cyn y cyfarfod nesaf.

**Materion Ariannol**

Cyllid misol Ebrill 2018

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | **£5996.67** |
| **Derbyniwyd: Praesept** | **£1500.00** |
| **Taliadau: Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| **Yn y banc diwedd mis** | **£7396.67** |

**Awdit 2017-2018**

Mae'r Clerc a'r Cadeirydd wedi arwyddo ffurflen Awdit (Annual Return) 2018 yn cadarnhau ei fod yn ddatganiad cywir o sefyllfa ariannol y cyngor. Mae'r cyngor wedi trafod manylion y ffurflen a chymeradwyo y dylai gael ei gyflwyno i'r swyddogion yr Awdit.

Mae'r taliadau canlynol wedi ei canitau ar gyfer y mis yma:

| | |
|---|---|
| Mr E Thomas a'i Feibion – gwaith trwsio mainc | £78.04 |
| E W Owen, Cyfrifydd | £180.00 |

G Hughes – Prynu eitemau ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus £ 4.37

Derbyniwyd rhodd o £250 gan Matt Ward am waith stiwardio yng Nghoed y Brenin.

Mae'r Clerc wedi hawlio arian TAW yn ol.

**Adolygiad Cynllun Gwariant 2018**

Wedi cymeryd i ystyriaeth pryniant peiriant Diffibliwr ar gost o oddeutu £1500 mae'r cyngor yn teimlo fod y gwariant ychwanegol yn fforddiadwy gan fod rhoddion wedi eu derbyn yn barod a fod rhoddion gan ddau ffynhonell arall ar ei ffordd. Amcangyfrifir cyfanswm o £2,000.

Nid oes unrhyw newidiadau eraill i gynllun gwariant y flwyddyn.

Mae'r cyngor yn ddiolchgar i Dafydd Morris am ei waith mewn cysylltiad a stiwardio yng Nghoed y Brenin.

**Llythyrau ac Ebyst**

Ffordd Lefel – Wedi derbyn gorchymun gan Gyngor Gwynedd i gau Ffordd Lefel o 6 Ebrill 2018 yn nodi y dylai gwaith ar y ffordd yn cael ei gwblhau o fewn tua 18 mis. Mae hyn yn peri pryder gan fod y cyngor wedi cael ar ddeall mai wythnosau ddylai y gwaith yma gymeryd yn hytrach na misoedd.

Derbyniwyd ebost gan Gyngor Gwynedd ar y 5.5.18 yn rhoi gwybodaeth fod Toiled y Ganllwyd yn cael ei uwchraddio. Mae'r gwaith cynllunio yn dechrau o fewn yr wythnosau nesaf gyda mwy o fanylion i ddilyn.

Gobr Pentrefi Meirionnydd 2018 – Yn dilyn trafod y daflen wybodaeth, penderfynwyd i beidio a chymeryd rhan.

**Unrhyw Fater Arall**

Llwybrau Cyhoeddus – Y Cynghorwyr i feddwl pa lwybrau sydd angen gwaith cynnal a chadw dros yr Haf ac os ydynt yn hapus gyda swm y gwariant an y flwyddyn 2018/19 sef £750 fel y penderfynwyd.